

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad yr adroddiad	12 Ebrill 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Cyng Brian Jones: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward: Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol
Awdur(on) yr Adroddiad	Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol / Peter Clayton, Rheolwr Prosiect
Teitl	Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff – Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol gan gynnwys achos busnes wedi'i ddiweddarau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cost a chyllideb ar brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes wedi'i ddiweddarau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cost a chyllideb ar brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes wedi'i ddiweddarau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn cydnabod y sefyllfa ddiweddaraf o ran cost a chyllideb (Atodiad 1).
- 3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Achos Busnes wedi'i ddiweddarau (Atodiad 2).
- 3.3. Bod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro i alw ar gyllid cynllun cyfalaf heb ei neilltuo os bydd angen oherwydd cynnydd afreolus mewn costau o ganlyniad i chwyddiant

neu faterion cadwyn gyflenwi. Adroddir ar unrhyw alwad ar y cyllid hwn i'r cyfarfod nesaf o'r Cabinet.

- 3.4. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau (Atodiad 3).

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Cafodd Achos Busnes ar gyfer symud at Fodel Gwasanaeth Gwastraff newydd yn seiliedig ar glasbrint casgliadau Llywodraeth Cymru (LIC) ac wedi'i gefnogi o Ddepo canolog newydd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2018. Ers hynny, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu'r depo canolog newydd sy'n ofynnol i gefnogi'r newid gwasanaeth, ynghyd â gweithgareddau allweddol eraill, gan gynnwys: trefnu llwybrau'r rowndiau casglu newydd; nodi'r Cerbydau Adennill Adnoddau newydd sy'n ofynnol i gefnogi'r rowndiau arfaethedig; a chymeradwyo dyluniad y gwasanaeth a'r cynwysyddion gofynnol.
- 4.2. Ers mis Rhagfyr 2018, dewiswyd safle yn Ninbych ar gyfer y Depo canolog newydd ar dir a ddyrannwyd yn y CDLI yn gyfagos ag Ystâd Ddiwydiannol Colomendy. Mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio â 4 busnes lleol a oedd hefyd yn ceisio caffael tir ar y safle hwn i'w galluogi i ehangu eu gweithrediadau. Mae'r Cyngor wedi cydweithio â'r busnesau i sicrhau pryniant y tir (oherwydd bod y tiffeddiannwr am werthu'r safle cyfan mewn un trafodyn yn hytrach na fesul plot); mynd trwy'r broses Gynllunio; a chyflawni gwaith galluogi Cam 1 o ystyried yr angen i ddraenio, gwasanaethu a diwygio lefelau ar draws y safle, a chael mynediad atynt. O ganlyniad, mae datblygu'r depo canolog newydd i gefnogi'r newid gwasanaeth wedi cymryd hirach nag a ddisgwyliwyd i gychwyn, ac effeithiwyd ar gynnydd yn rhannol gan Covid-19 hefyd. Er bod y penderfyniad i weithio gyda'r 4 busnes lleol wedi arwain at y prosiect yn cymryd mwy na'r disgwyl i'w gyflawni, mae'r peth cywir i'w wneud. Roedd y busnesau hyn wedi mynd yn rhy fawr i'w heiddo ac nid oeddent yn gallu ehangu. Drwy weithio gyda nhw, rydym wedi gallu caniatu i'r busnesau hyn aros yn y sir, sydd wedi diogelu llawer o swyddi lleol presennol yn ogystal â chreu swyddi newydd i bobl leol.
- 4.3. Er mwyn delio â risgiau a ffactorau anhysbys ar y prosiect, cafodd y swm at raid yn y gyllideb gyffredinol ei gynyddu i £2 miliwn ym mis Gorffennaf 2019. Ar y pryd,

teimlwyd yn rhesymol bod hyn yn ddigonol i gwmpasu cynnydd o ran cost ar draws y ffrydiau gwaith allweddol.

- 4.4. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd sylweddol o ran chwyddiant a oedd yn effeithio ar gost nwyddau a deunyddiau yn ystod y 12 mis diwethaf (e.e. mae prisiau dur wedi cynyddu tua 90% yn 2021), cynhaliwyd adolygiad o gostau ym mis Chwefror 2022 ac mae wedi nodi pwysau o ran costau ar draws y prosiect o £3.588 miliwn. Felly nid oedd swm at raid o £2 filiwn yn ddigonol bellach i fynd i'r afael â'r holl bwysau disgwylidig hyn o ran costau.
- 4.5. Cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer y diffyg o £1.588 miliwn ar ddechrau 2022, a chafwyd cadarnhad ar 17 Mawrth fod y cais hwn wedi bod yn llwyddiannus.
- 4.6. Mae fersiwn wedi'i diweddarau o'r Achos Busnes wedi'i chynnwys fel Atodiad 2 sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cost, cyllideb a refeniw. Nid yw hanfod yr Achos Busnes wedi newid, o ran y bydd newid y model casglu gwastraff y cartref yn arwain at:
 - lefelau ailgylchu uwch;
 - gwelliant o ran ansawdd y deunyddiau y gellir eu hailgylchu a gaiff eu casglu;
 - gostyngiad o ran allyriadau carbon; a
 - bod y gwasanaeth gwastraff yn costio llai yn sylweddol nag y bydd os byddwn ni'n cynnal y model casglu presennol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Fe fydd y newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer casglu gwastraff o aelwydydd yn cael effaith bositif ar Flaenoriaeth Gorfforaethol, "Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i Ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd". Fe fydd yn cynyddu nifer ac ansawdd y deunydd ailgylchu a gesglir o aelwydydd, ac yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig. Fe fydd hefyd yn galluogi ehangu busnesau lleol o bosib, gan arwain at gyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd.
- 5.2. Trwy fabwysiadu technoleg carbon isel yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff arfaethedig newydd a chynnwys isadeiledd ar gyfer fflyd ULEV, y nod yw lleihau effaith y safle i gefnogi'r nodau corfforaethol ehangach o ran sero net erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Mae cost y newid gwasanaeth wedi'i nodi yn Atodiad 1.
- 6.2. Fe fydd y newid gwasanaeth hwn yn effeithio ar y Gwasanaeth Gwastraff, gyda'r gwasanaeth newydd yn gweithredu o'r cyfleuster Depo newydd. Fe fydd y cyfleuster trwyddedig hwn hefyd yn darparu capasiti ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Stryd ar gyfer pentyrru gwastraff ceunentydd, sgubion stryd a ffrydiau gwastraff eraill sy'n gysylltiedig â phriffyrdd.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn bositif – gweler Atodiad 3 i gael rhagor o fanylion.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Cafodd yr egwyddor gyffredinol o ddatblygu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd i gefnogi'r newid gwasanaeth casglu gwastraff cyffredinol ei chymeradwyo i ddechrau yn y **Grŵp Gwella Gwasanaeth a'r Cabinet** ym mis Rhagfyr 2018 a chyflwynwyd diweddariadau dilynol ar gynnydd yn **sesiwn Frifffio'r Cabinet** a'r **Pwyllgor Craffu Cymunedau** yn ystod 2019 a 2021. Yn ogystal, aeth pryniant tir yng Ngholomendy, Dinbych a datblygu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff arfaethedig ar y tir hwnnw fel dewis a ffefrir i'r **Grŵp Ardal Aelodau** ym mis Mawrth 2019.
- 8.2. Wedi ymgynghori â'r **Prif Swyddog Ariannol** – gweler yr ymateb isod:

9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

- 9.1. Gan fod yr Achos Busnes cychwynnol wedi'i gymeradwyo dros 4 blynedd yn ôl croesewir bod y prosiect wedi dod ymlaen gydag Achos Busnes diwygiedig ar gyfer elfennau cyfalaf a refeniw'r prosiect. Mae'r adnoddau ychwanegol gofynnol ar gyfer yr elfen gyfalaf yn ddealladwy ac wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad hwn. Croesewir bod y prosiect wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru sy'n parhau'n hyderus am lwyddiant y prosiect ac wedi cymeradwyo'r grant ar gyfer y gorwariant presennol. Fodd bynnag, nid yw'r Achos Busnes diwygiedig yn cynnwys arian at raid penodol a fyddai'n arferol ar gyfer Achos Busnes newydd. Fel gyda phob prosiect cyfalaf ar hyn o bryd, mae'r prosiect hwn yn ddarostyngedig i risgiau

parhaus yn ymwneud â chostau oherwydd pwysau chwyddiant parhaus yn y farchnad ac anwadalrwydd parhaus yn y gadwyn gyflenwi. I gydnabod y pwysau cyffredinol hwn mae grant heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru (£1.6miliwn) wedi'i ychwanegu at yr arian at raid Cynllun Cyfalaf cyffredinol ar gyfer 22/23. Mae'n bwysig bod dirprwyaeth i alluogi'r prosiect i wneud cais am elfen o'r cyllid hwn os bydd angen yn ystod yr wythnosau nesaf i osgoi oedi a chostau pellach. Dylid rhoi gwybod i'r Cabinet am unrhyw newid pellach i'r Achosion Busnes cyffredinol. Bydd y prosiect yn parhau i gael ei fonitro'n agos ac adroddir am gynnydd i'r Cabinet yn y diweddariadau Cyfalaf o fewn yr Adroddiad Cyllid misol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Chwyddiant cost – Y brif risg wrth beidio derbyn yr Achos Busnes wedi'i ddiweddarau ar gyfer y prosiect yw fod hyn yn arwain at ragor o oedi wrth ddarparu'r prosiect, a fydd yn anochel yn arwain at gynnydd o ran costau i'r cyngor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Rhan II Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

11.2. Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.3. Adran 120 Deddf Llywodraeth Leol 1972